**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 11eg Ebrill 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans ac Alwen Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc, Denfer Morgan

**184 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Iwan Thomas a Ray Williams am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod

**185 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14eg Mawrth 2024.

**186 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Un Llais Cymru (Tanysgrifiad Blynyddol) - £171

**187 Cais am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais oddi wrth Bois y Gilfach am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** yn dilyn trafodaeth, peidio cyfrannu.

**188 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio *A230845 - Tyglyn Aeron Hotel, Ciliau Aeron. Extension and renovation to Ty-Glyn Aeron Hotel, including the erection of a detached workshop and other ancillary work surrounding the hotel.*

**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad.

**189 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Adroddodd y Clerc y llythyr dyddiedig 8fed Ebrill 2024 oddi wrth Adran Cynllunio'r Cyngor Sir yn cyflwyno'r 'cyngor cyn ymgeisio' y gofynwyd amdano gan y Cyngor hwn.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gofyn i asiantwyr cynllunio am amcanbris ar gyfer paratoi a chyflwyno cais cynllunio.

**190 Cynigion Drafft Adolygiad Cymunedau Ceredigion**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gynigion Drafft Adolygiad Gymunedol Ceredigion ar gyfer y Gymuned hon, sef:

- diddymu Cymunedau Ciliau Aeron a Nantcwnlle a chreu Cyngor Cymuned newydd a enwir Ciliau Aeron a Nantcwnlle / Ciliau Aeron and Nantcwnlle
- yn unol â Pholisi Maint y Cyngor a gymeradwy-wyd gan y Cyngor Sir ar gyfer yr Adolygiad, sef "ni ddylai cymuned gynnwys llai nag 800 o etholwyr yn gyffredinol…a chael ei chynrychioli gan 7 cynghorydd o leiaf" roedd yn cael ei gymeradwyo fod gan y Cyngor Cymuned 8 Aelod.
- bod y Gymuned newydd yn cynnwys 3 ward, sef wardiau presennol Cilcennin a Chiliau Aeron (ill dau gyda 2 Aelod yr un) a chyn Gymuned Nantcwnlle (4 Aelod)
- mân newidiadau i'r ffiniau.

Mynegodd yr Aelodau eu siom gyda'r argymhellion gan eu bod o'r farn nad oeddent yn gwella'r trefniadau democrataidd presennol ac eu bont yn tanseilio "llywodraeth leol effeithiol a chyfleus" ar gyfer etholwyr y Gymuned.

**PENDERFYNWYD** gwneud y cynrychioliadau canlynol i'r Comisiwn:

i) ni fydd uno Cynghorau Cymuned Ciliau Aeron a Nantcwnlle yn creu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus gan nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y ddwy gan eu bod yn gwasanaethu dwy ardal gwahanol heb unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth

ii) canlyniad lleihau'r nifer yr Aelodau i wyth fyddai:

- llai o gynrychiolaeth i etholwyr mewn ardal wledig eang
- gyda chworwm o draean, fe fyddai cyfarfod o'r Cyngor yn ddilys o ran cworwm gyda thri Aelod yn unig yn bresennol sy'n llawer rhy fach i ddarparu fforwm ddemocrataidd iach ar gyfer penderfynnu materion lleol a darparau gwasanaethau
- ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion ariannol gan fod yr holl Aelodau yn dewis peidio derbyn eu lwfans sylfaenol.

**191 Holiadur 20mya**

Rhoddwyd ystryriaeth i'r holiadur a ddanfonwyd allan gan Swyddfa Elin Jones AS a'i gwblhawyd ar gyfer ei ddychwelyd i'r Swyddfa.

**192 Unrhyw Fater Arall**

**PENDERFYNWYD** dilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir y twll yn y ffordd ar yr allt sy'n arwain o'r Bont Newydd i Gilcennin gan nad oedd wedi'i drwsio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm